# CYLCHLYTHYR 23.05.25

Dyma ni ar ddiwedd hanner tymor byr, ond prysur iawn! Gobetihio wenwch chi gyd fwynhau'r gwyliau – edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion nol i'r ysgol ar ddydd lun, Mehefin 2il. Cofiwch fod Clwb Bwrlwm yn cael ei gynnal ar safle'r ysgol o ddydd Mawrth – dydd Gwener rhwng 10:30 – 12:25 – mae manylion pellach isod.

## Presenoldeb

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 23-24 | 88.5% | Targed 24 – 25 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.85% |

## Dosbarth Feithrin

Mae'r ymgynghoriad ynglŷn ag agor dosbarth Meithrin yn yr ysgol bellach ar agor tan 1af o Orffennaf. Bydd cynrychiolwyr o'r Awdurdod Addysg yn dod i'r ysgol ar ddydd Mawrth, Mehefin 10fed am 6yh i drafod y cynnig gyda chi ac i dderbyn unrhyw gwestiynau. Gwerthfawrogwn yn fawr eich presenoldeb a'ch barn yn y cyfarfod yma.

## Tafwyl

Mae Tafwyl yn ŵyl flynyddol a drefnir gan Fenter Caerdydd i ddathlu celfyddydau a diwylliant Cymru. Eleni, fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, 14eg a 15fed o Fehefin ym Mharc Biwt. Bydd yr ŵyl yn cynnwys perfformiadau gan nifer o fandiau Cymreig – rhai cyfarwydd yn ogystal ag wynebau newydd – ac wrth gwrs mae'r stondinau bwyd a diod arferol, a llawer o weithgareddau i blant. Mae'n ddiwrnod gwych i'r teulu i gyd!




Tafwyl 2025

Bydd disgyblion yr ysgol, o ddosbarth Derbyn i flwyddyn 6 yn cael y cyfle i berfformio ar lwyfan yr Ysgolion ar brynhawn dydd Sul, 15/06 am 4:15yp. Neilltuwyd 15 munud ar gyfer y perfformiad a bydd y disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon.

Llenwch y ffurlen yma neu sganiwch y côd qr os yw eich plentyn am gymryd rhan. Diolch!

## Clwb Cwtsh – dysgwch siarad Cymraeg gyda phlant ifanc

Hoffwch ddatblygu eich gallu i siarad Cymraeg gyda'ch plant? Mae Clwb Cwtsh yn gwrs blasu Cymraeg sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref. Bydd y sesiynau yn cael ei chynnal yn yr ysgol yn dechrau dydd Llun, 2il o Fehefin 10-11yb, am 7 wythnos. Cofrestrwch yma neu drwy Dojo. Diolch!

## Criced Vitality Blast Morgannwg v Surrey

Mae cyfle wedi dod i ddisgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 i fynychu gêm griced Morgannwg ar nos Fawrth y 3ydd o Fehefin. Bydd yr 20 plentyn cyntaf sy'n mynegi diddordeb yn cael lle i ddod a byddant yn cael ei goruchwylio gan staff yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi gael eich plentyn draw i gaffi Castan yng nghaeau Llandaf ar nos Fawrth y 3ydd o Fehefin erbyn 5:00. Gofynnwn i chi i'w casglu nhw o'r tu allan i dafarn y Bragdy a Chegin am 9:00 y nos. Bydd ffurflen yn cael ei rhoi ar classdojo cyn bo hir i gasglu diddordeb.

## Mabolgampau

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan mawr ym Mabolgampau Coed y Gof ac i rhieni a ffrindiau yr ysgol am gystadlu mor frwd. Eithin oedd y llys buddugol ar ddiwrnod a welodd pob un disgybl yn rhoi 100% i bopeth.

## Gwyl bêl droed



Llongyfarchiadau i bob un o'r tîm bêl droed blwyddyn 4 am gynrychioli'r ysgol mewn twrnamaint draw yn Ocean Park Arena. Llwyddodd y tîm sgorio nifer o goliau ac roedd cyd-chwarae effeithiol iawn ar ddangos. Da iawn i chi, rydym yn falch iawn ohonoch.

## Byrbrydau

Hoffem ofyn yn garedig i blant beidio â dod â phecynnau mawr o greision, Doritos, Takis, pecynnau o donuts neu snaciau tebyg i'r ysgol. Nid yw'r rhain yn addas fel rhan o ddiwrnod ysgol iach.

Os oes angen snac ar eich plentyn i ategu eu cinio ysgol, sicrhewch ei fod yn ddewis iach, megis:

- Ffrwythau ffres
- Caws
- Iogwrt

Er mwyn helpu pawb i ffocysu ac i gadw'n hydradol, cofiwch anfon dŵr gyda'ch plentyn i'w yfed drwy'r dydd. Er bod "squash" yn dderbyniol gyda phrydau bwyd, mae deintyddion yn argymell dŵr/llaeth fel y dewis gorau yn ystod y dydd.

**Nid yw diodydd byrlymus, diodydd egni (ee, lucozde sport), gwm cnoi neu lolipops yn cael eu caniatáu yn yr ysgol.**

Os hoffech drafod hyn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth.

Diolch am eich cefnogaeth wrth hyrwyddo arferion iach!

# DYDDIADAU PWYSIG

| GWYLIAU HANNER TYMOR 26-30/05/25 | |
|---|---|
| 03.06.25 | Criced Vitality Blast Morgannwg vs Surrey |
| 04.06.25 | Sesiwn i rieni 9:15 – 11:15 – Darllen adref |
| 04.06.25 | Trip Bl 6 i Brifysgol De Cymru (Pasport i'r Ddinas) |
| 05.06.25 | Llun Ysgol Gyfan (bore) |
| 06.06.25 | Gwasanaeth Dosbarth Castanwydden – 2yp |
| 10.06.25 | Sesiwn "galw mewn" gyda'r nyrs ysgol 9-11yb |
| 10.06.25 | Ymgynghoriad dosbarth Meithrin – cyfarfod i rieni am 6yh |
| 11.06.25 | Cyfarfod i rieni bl 4 am y trip i Storey Arms 4:30 – 5 |
| 13.06.25 | Gwasanaeth Dosbarth Gwernen 2yp |
| 14&15.06.25 | TAFWYL – bydd yr ysgol yn perfformio ar ddydd Sul 15/06 – manylion uchod |
| 17.06.25 | Pontio+ Plasmawr |
| 18.06.25 | Sesiwn galw mewn i rieni ar gyfer y dosbarth meithrin |
| 23-27/6 & 30/6 – 4/7 | Gwersi nofio i flwyddyn 4 (10 diwrnod) |
| 24.06.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 1 |
| **28.06.25** | **Ffair Haf Ffrindau Coed-y-Gof 11yb (dydd Sadwrn)** |
| 01.07.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 2 |
| 01.07.25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 03.07.25 | Gwasanaeth Dosbarth Ywen 2yp |
| 03.07.25 | Cyfarfod i rieni bl 5 am y trip i Langrannog 4:30 – 5 |
| 04.07.25 | Gwasanaeth Dosbarth Collen 2:00yp |
| 08.07.25 | Bl 6 Pontio Plasmawr 3 |
| 09.07.25 | Sioe gerdd "Syrcas y Sêr" yn Ysgol Plasmawr – manylion i ddilyn |
| 11.07.25 | Gwasanaeth Dosbarth Derwen 2:00yp |
| 14.07.25 | Cyngerdd Rock Steady i rieni 2:30yp |
| 15.07.25 | Pontio + Plasmawr |
| 15.07.25 | Trip Adran Sylfaen a Dosbarth Enfys i Parc Play |
| 18.07.25 | Diwedd y Tymor i ddisgyblion |
| 21.07.25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |




mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar



YSGOL GYMRAEG COED-Y-GOF

